# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

## RHAN 1

RHEOLEIDDIO GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL

## PENNOD 2

COFRESTRU ETC. DARPARWYR GWASANAETHAU

*Gofynion hysbysiadau*

### 17 Hysbysiad o benderfyniad yn dilyn hysbysiad gwella

(1) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

(a) bod y camau a bennir mewn hysbysiad gwella wedi eu cymryd, neu

(b) bod yr wybodaeth a bennir felly wedi ei darparu,

o fewn y terfyn amser a bennir yn yr hysbysiad, rhaid iddynt hysbysu'r darparwr gwasanaeth eu bod wedi penderfynu peidio â chanslo neu amrywio cofrestriad y darparwr ar y sail a bennir yn yr hysbysiad gwella.

(2) Os nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod yr wybodaeth a bennir mewn hysbysiad gwella wedi ei darparu o fewn y terfyn amser a bennir yn yr hysbysiad, rhaid iddynt roi hysbysiad o benderfyniad i'r darparwr gwasanaeth sy'n datgan bod cofrestriad y darparwr i'w ganslo neu i'w amrywio ar y sail a bennir yn yr hysbysiad gwella.

(3) Os nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y camau a bennir mewn hysbysiad gwella wedi eu cymryd o fewn y terfyn amser a bennir yn yr hysbysiad, rhaid iddynt naill ai—

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(a) rhoi hysbysiad o benderfyniad i'r darparwr gwasanaeth sy'n datgan bod cofrestriad y darparwr i'w ganslo neu i'w amrywio ar y sail a bennir yn yr hysbysiad gwella, neu

(b) hysbysu'r darparwr—

(i) nad yw'r camau wedi eu cymryd,

(ii) am ddyddiad newydd erbyn pryd y mae rhaid cymryd y camau,

(iii) y bydd arolygiad o dan adran 33 o'r gwasanaeth rheoleiddiedig neu'r man y mae'r hysbysiad gwella yn ymwneud ag ef yn cael ei gynnal ar ôl y dyddiad hwnnw, a

(iv) y byddant, ar ôl yr arolygiad hwnnw, os nad yw'r camau wedi eu cymryd, yn bwrw ymlaen i ganslo neu amrywio cofrestriad y darparwr ar y sail a bennir yn yr hysbysiad gwella.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, ar ôl yr arolygiad, fod y camau a bennir yn yr hysbysiad gwella wedi eu cymryd, rhaid iddynt hysbysu'r darparwr gwasanaeth eu bod wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen i ganslo neu amrywio cofrestriad y darparwr ar y sail a bennir yn yr hysbysiad gwella.

(5) Os nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni o hyd, ar ôl yr arolygiad, fod y camau a bennir yn yr hysbysiad gwella wedi eu cymryd, rhaid iddynt roi hysbysiad o benderfyniad i'r darparwr gwasanaeth sy'n datgan bod cofrestriad y darparwr i'w ganslo neu i'w amrywio ar y sail a bennir yn yr hysbysiad gwella.

(6) Rhaid i hysbysiad o benderfyniad a roddir o dan is-adran (2), (3)(a) neu (5)—

(a) datgan y rhesymau dros y penderfyniad (gan gynnwys y seiliau dros ganslo neu amrywio), a

(b) esbonio'r hawl i apelio a roddir gan adran 26.

(7) Mae penderfyniad a ddatgenir mewn hysbysiad a roddir o dan is-adran (2), (3)(a) neu (5) yn cymryd effaith—

(a) os na wneir apêl yn erbyn y penderfyniad, ar y diwrnod ar ôl diwrnod olaf y cyfnod o 28 o ddiwrnodau y cyfeirir ato yn adran 26(2), neu

(b) os gwneir apêl, ar y diwrnod a bennir gan y tribiwnlys wrth ddyfarnu ar yr apêl neu ar y diwrnod y tynnir yr apêl yn ôl.